# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern
Nos Lun, 24 Ebrill, 2023 am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**.

**Presennol:**

JF, AP, BH, RJ, VO, GJ, EJ, LJ, JAR (Cadeirydd), EJ

**Ymddiheuriadau:**

AT

2. **Datgan Diddordeb**. Dim i'w nodi.

**3. Cofnodion Ionawr 2023**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir gan LJ ac eiliwyd gan BH.

**4. Materion yn Codi o'r cofnodion.**

4.1 Gwaith yn y fynwent. 1 pris wedi ei dderbyn gan Barry Rowlands. Cost £500 a TAW £100; cyfanswm £600. Eglurwyd fod angen torri'r coed o flaen y fynwent. Angen cadarnhad pryd fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud.
Cytunwyd ar dalu'r pris o £600.

4.2 Materion yn ymwneud a'r parc. G.L.Jones wedi archebu offer ond nid oes cadarnhad pryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau. Nid yw'r bin newydd wedi ei dderbyn eto. Ffens wedi malu – cytunwyd i ofyn i G.L.Jones am bris am y gwaith adnewyddu.

4.3 Tyllau yn y ffordd rhwng Refail Newydd a Prysaeddfed. GJ yn cadarnhau ei fod wedi cysylltu ag Adran Briffyrdd Cyngor Ynys Môn. Cadarnhaodd LJ a EJ fod y tyllau wedi llenwi ond wedi gwaethygu unwaith yn rhagor.

Rhannwyd hefyd fod cyflwr gwael ar lon Bron y Graig (ar waelod y lon) a stryd Wesla.

Cytunwyd i anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd yn mynegi pryderon am gyflwr y ffyrdd hyn.

4.4. Sefyllfa baw ci o amgylch y pentref. Mae hyn yn parhau i fod yn broblem. GJ i wneud ymholiadau gyda Chyngor Ynys Môn am y posibilrwydd o gael arwyddion o amgylch y pentref yn rhybuddio unigolion am ddirwy os nad ydynt yn codi baw ci.

5. **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.**

5.1 Cais cynllunio wedi ei dderbyn ar gyfer Derlwyn, Stryd yr Eglwys. Cais llawn ar gael i'w ystyried. Dim gwrthwynebiad yn cael ei fynegi. Derbyniwyd y cais.

6. **Gohebiaeth i'w adolygu.**

6.1 E-bost wedi ei dderbyn gan Steph Jones yn mynegi pryder fod giât y parc yn cael ei adael yn agored. Cadarnhaodd y cadeirydd nad yw'r giat yn cau / cloi yn iawn ac mae hyn angen sylw.

Cytunwyd fod angen sicrhau fod y giât yn cloi.

Angen derbyn prisiau i adnewyddu'r giât. 2 enw yn cael ei gynnig – G.L. Jones a Rheon Jones, Tai Uchaf.

6.2 E-bost wedi ei dderbyn gan Cari yn mynegi pryder am sbwriel yn y parc. Mae'n ymddangos fod bin wedi diflannu o'r parc. Bydd angen rhoi cais i Gyngor Ynys Môn am fin newydd.

Clerc wedi paratoi opsiynau i'r pwyllgor ystyried.

Opsiwn 1 – Aelodau'r Cyngor Plwyf Bodedern i wirfoddoli i fynd a'r bin i'r lon ar ddiwrnod casglu sbwriel, a'i ddychwelyd nôl. Byddai modd creu rota ar gyfer yr aelodau sydd yn fodlon helpu.

Opsiwn 2 - Cyngor Plwyf Bodedern i dalu cwmni preifat i wneud hyn. Y clerc wedi gwneud ymholiadau gyda chwmni Gaskil, sydd wedi cynnig pris o £10 bob

pythefnos i gasglu, gwagio a dychwelyd y bin.

JF yn nodi fod cwmni ail-gylchu lleol, Kevin Humphries, yn cynnig y gwasanaeth yma ac maen't hefyd yn cynnig bin.

Cynigwyd a chytunwyd fod ymholiadau am brisiau yn cael ei wneud gan gwmni Kevin Humphries.

Gan fod y mater hwn yn un brys, cytunwyd i ofyn i Kevin Humphries i ddarparu'r gwasanaeth yma os yw'r pris yn debyg i'r pris sydd wedi ei dderbyn gan Gaskill. Nid oes angen cysylltu gyda Chyngor Ynys Môn i ofyn am fin newydd ar hyn o bryd.

6.4 E-bost wedi ei dderbyn gan Llio Ifan yn pryderu am ddiffyg twmpathau ar y lon Bron y Graig a Lon Gerddi. Roedd hefyd yn codi pryder am y nifer o geir a faniau mawr a oedd yn parcio ar ochr y ffordd. Mae Llio yn barod wedi anfon ei phryderon ymlaen i Gyngor Ynys Môn. Cydnabuwyd fod y ffyrdd hyn wedi eu hail-wynebu oddeutu 2 flynedd nol ond nid oedd Cyngor Môn am ail-osod y twmpathau bryd hynny. Mae sawl cais wedi ei wneud i Gyngor Ynys Môn yn gofyn iddynt ail osod y twmpathau ond rhannwyd na fydd hyn yn bosib oherwydd goblygiadau ariannol – cost oddeutu £1000 yr un i ail-osod twmpathau. Mynegwyd fod twmpathau yn cael eu gosod mewn rhai pentrefi o amgylch Ynys Môn.

GJ i wneud ymholiadau pellach gyda'r Adran Priffyrdd gan nodi ein pryderon fod y lonydd hyn yn brysur iawn gan mai dyma'r ffordd i feddygfa'r gymuned ac y mae plant ifanc yn defnyddio'r ffordd i fynd a dod o'r ysgol ac i'r parc chwarae.

**7. Taliadau i'w gwneud.**

7.1 Bil wedi ei dderbyn gan Leigh Thomas am dorri'r gwair yn y fynwent a maes chwarae. Mae wedi torri'r gwair yn y fynwent ddwywaith - cyfanswm £400 (£200 y toriad). Mae hefyd wedi torri gwair yn y maes chwarae dair gwaith - £150 y tro; cyfanswm £450.

Cytunwyd i dalu'r rhain.

**8. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y cynghorwyr**.

8.1 JF yn mynegi pryder unwaith eto ynglyn a chyflymder cerbydau ar y lon yn dod mewn ag allan o'r pentref tuag at Dalar. JF wedi llythyru Gan Bwyll yn rhannu'r bryder. Mae Gan Bwyll wedi derbyn arolwg cyflymder gan Gyngor Ynys Môn sy'n nodi mai ar gyfartaledd o 27 milltir yr awr y mae ceir yn mynd ar hyd y ffordd yn y pentref. Ar sail y wybodaeth hon, mae Cam Bwyll yn gwrthod rhoi camerâu mewn lle.

JF wedi cysylltu gyda swyddog o Orfodaeth Traffig, Heddlu Gogledd Cymru yn mynegi pryderon. Gorfodaeth Traffig wedi arsylwi'r traffic ar y lon yn gyrru allan o'r pentref am gyfeiriad Dalar ar un achlysur. Mewn 1 awr cosbwyd 8 person yn gyrru dros y cyflymder cyfreithiol. Rhannwyd fod y ceir hyn yn teithio ar gyfartaledd rhwng 48 a 70 milltir yr awr. Data yma i'w gael gan Orfodaeth Traffic Gogledd Cymru.

Cytunwyd i roddi cais mewn i'r Adran Briffyrdd i ofyn iddynt ystyried newid y cyflymder i 40 milltir yr awr ar y lon yn mynd allan o'r pentref tuag at gyfeiriad y Dalar.

Cytunwyd hefyd i anfon llythyr i Orfodaeth Traffig i fynegi ein pryder am gyflymder teithio yn yr ardal hon ac i ofyn iddynt fod yn bresenol yn rheolaidd i fonitro'r sefyllfa.

8.2 Gofynnodd EJ am sefyllfa 'Superfast Broadband' y pentref; pwy yw'r darparwr a phryd y bu cytundeb ei wneud gyda'r darparwr. Mynegwyd fod bandeang yn ara iawn mewn rhai mannau o'r pentref.

EJ i gysylltu gyda Medrwn Môn i wneud ymholiadau pellach am wella'r ddarpariaeth yma.

8.3 RJ yn holi ar ran cymydog am fanau aros trafnidiaeth gyhoeddus y pentref. Angen cadarnhad ble mae bws rhif 4 yn codi a stopio.

Cytunwyd i gysylltu gyda Iwan Cadwaladr, Adran Briffyrdd ynglyn a hyn.

8.4 Mae RJ wedi derbyn ymholiadau am arian Cyfeillion y Pentref ac arian a

gasglwyd er cof am David Blackman. Mae Cyngor Plwyf Bodedern wedi cysylltu gyda'r pwyllgor Maes Chwarae sawl gwaith yn gofyn am gopi o mantolen ariannol ond nid oes ymateb wedi bod.

Cytunwyd i roi cais 'Freedom of Information' i'r pwyllgor, i sylw Helen Williams, y Cadeirydd. Disgwylir iddi ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith i gais fel hyn. Os na fydd ymateb, yna bydd rhaid ystyried camau pellach.

Bydd angen nodi fod y cais am wybodaeth yn dod gan y pentrefwyr trwy Gyngor Plwyf Bodedern gan fod ymholiadau yn cael ei wneud i'r pwyllgor am yr arian yma.

8.5 VO yn nodi fod Neuadd Goffa Bodedern yn 100 oed eleni.
Cytunwyd i gysylltu gyda Cadeirydd y Neuadd, Mr Arnold Griffydd, i holi os oes digwyddiad arbenning yn cael ei gynnal i ddathlu'r digwyddiad hwn.

8.6 Rhannwyd AP fod Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Bro Alaw 2024 yn estyn diolchiadau i Gyngor Plwyf Bodedern am yr arian tuag at y digwyddiad.
Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn dymuno defnyddio'r arian tuag at wobr arbennig yn ogystal â chôr plant.
Cytunwyd y bydd AP yn holi'r Pwyllgor Gwaith am restr cystadlaethau y gellir ei noddi gyda'r arian sydd wedi ei dderbyn.
Rhannwyd hefyd fod gwahoddiad i bob aelod o'r Cyngor Plwyf fynychu Seremoni Gyhoeddi sydd yn digwydd yn y pentref dydd Sadwrn, Mai 13, 2023.

8.7 Elusen David Williams. Gofynnodd EJ os mai David Williams oedd perchennog rhai o ffermydd lleol ac os oedd rhain yn parhau i fod yn rhan o eiddo Cyngor Ynys Môn. Rhannwyd fod rhai yn parhau o dan adran eiddo Cyngor Ynys Môn ond nid oedd sicrwydd fod y Cyngor yn ennill yn ariannol o rhain.

8.8 Set wag. JAR wedi cysylltu gyda Mr Maldwyn Hughes ond nid oedd yn fodlon derbyn y cynnig.

8.9 JAR yn mynegi pryder am gyflwr y pentref. Mae sbwriel ar hyd ffordd lon Dalar a Cymunod yn parhau. Mae hen siop bapur wedi dymchwel ac wedi ei adael ac mae sawl eiddo arall wedi eu gadael ac mewn cyflwr gwael iawn. Gofynnwyd os oes modd i Gyngor Ynys Môn gwblhau asesiad risg ar y safleoedd hyn.
Cytunwyd i gysylltu gyda'r Land Registery i wneud ymholiadau am berchnogion yr eiddo.
Eiddo Cyngor Môn – safle hen deliffon yng nghanol y pentref yn flêr a llecyn ar Stryd Baptist ddim yn cael ei dorri.
Cytunwyd i gysylltu gyda Ned Michael yn Adran Dai i ofyn am dorri'r gwair ar y llecyn hwn.

8.10 JAR yn rhannu fod sbwriel o amgylch y pentref yn parhau i fod yn broblem.
Cytunwyd i gysylltu gyda'r Ysgolion i ofyn iddynt dynnu sylw'r plant a phobl ifanc at y broblem.

8.11 JAR yn holi GJ am gamerau symudol – cadarnhawyd nad yw rhain yn bodoli.

8.12 Y fynwent. JAR yn rhannu fod angen clirio cefn y fynwent. Sbwriel wedi ei gasglu ar y ddwy ochr erbyn hyn.
Cytunwyd i ofyn am bris i glirio'r safle gan Llŷr Taylor a D.C. Roberts (JF i gadarnhau).

8.13 Cofnodion ac agenda. Gofynnwyd i rhain gael eu rhannu 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Cytunwyd i ofyn i'r clerc sicrhau hyn.

8.14 Cyfarfodydd. Cytunwyd na fydd y cyfarfodydd yn cael eu gohirio eto. Os na fydd modd i'r Cadeirydd neu'r Clerc fod yn bresennol, yna bydd angen dewis un o'r pwyllgor i gofnodi a Chadeirio'r cyfarfod.

8.15 Seddi Gwag. Rhannwyd fod Ann Thomas yn dymuno ymddiswyddo o'r Pwyllgor. Mynegwyd fod ei chyfraniad ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn

werthfawr iawn a chydnabyddwyd ei hymrwymiad i Gyngor Plwyf Bodedern. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch iddi am ei chyfraniad.

Cytunwyd i gynnig set i'r canlynol - Mr Rhys Jones; Mr Gafyn Jones; Ms Michelle Trowell; Mr Osian Jones

9. **Dyddaid cyfarfod nesaf**—22/5/2023.